## CYNGOR DINAS CAERDYDD

## Rhoi Sylwadau
## Deddf Trwyddedu 2003

**Pethau i gadw golwg amdanynt**
O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, gellir cyflwyno sylwadau ynghylch ceisiadau am

- drwydded safle newydd
- amrywio trwydded safle bresennol
- mân amrywiad ar drwydded safle bresennol
- tystysgrif safle clwb newydd
- amrywiad ar dystysgrif safle clwb presennol
- mân amrywiad ar dystysgrif safle clwb presennol

Pan fydd ymgeiswyr am wneud cais am drwydded newydd, neu amrywio eu trwydded bresennol (er enghraifft, i gynnal gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn eu horiau), rhaid iddynt hysbysebu'r cais drwy:

**Rhoi hysbysiad yn y safle neu arno**

- Ar bapur glas golau A4 (neu fwy).
- Wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn ffont 16 o leiaf.
- Wedi'i osod yn **amlwg** yn y safle neu arno lle gellir ei ddarllen yn **Gyfleus** o'r **Tu allan** i'r safle.
- Wedi'i osod bob 50 metr ar berimedr allanol y safle sy'n ffinio ag unrhyw briffordd (lle bo hynny'n berthnasol).

**Rhoi hysbysiad yn y papur newydd**

- Mae'n rhaid i gylchrediad papurau newydd fod yng nghyffiniau'r safle (neu os nad oes papur lleol, mewn newyddlen leol neu gylchlythyr).
- Rhaid i'r hysbyseb ymddangos o leiaf unwaith yn y 10 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei roi i'r awdurdod trwyddedu.

Ar gyfer ceisiadau gyda mân amrywiad, dim ond dangos hysbysiad ar y safle, neu ynddo sy'n ofynnol i'r ymgeisydd. Dylai hyn fod:

- Ar bapur gwyn A4 (neu fwy).
- Wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn ffont 16 o leiaf.
- Wedi'i osod yn **amlwg** yn y safle neu arno lle gellir ei ddarllen yn **gyfleus** o'r **tu allan** i'r safle.
- Wedi'i osod bob 50 metr ar berimedr allanol y safle sy'n ffinio ag unrhyw briffordd (lle bo hynny'n berthnasol).

Gellir gweld manylion llawn y cais hefyd yn "nghofrestr drwyddedu" yr awdurdod trwyddedu. Mae hysbysiad hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod www.caerdydd.gov.uk

Y pedwar amcan trwyddedu yw:

- Atal trosedd ac anrhefn;
- Diogelu'r cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; a
- Gwarchod plant rhag niwed.

Os oes gan unrhyw berson bryder bod rhoi trwydded yn y termau y gwnaed cais amdani'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion hyn, mae ganddo 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod perthnasol, (10 diwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau wedi'u mân amrywio) i wneud sylwadau i'r awdurdod hwnnw.

## Pryd y gellir rhoi sylwadau?

Rhaid i'r holl sylwadau fod ynghylch effaith debygol rhoi'r drwydded neu'r dystysgrif ar hyrwyddo o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu. Byddai'n ddoeth, felly, cysylltu unrhyw sylw yn benodol ag un neu fwy o'r amcanion.

Bydd hefyd yn gymorth os yw'r sylwadau'n benodol i'r safle a'r dystiolaeth. Felly, efallai y bydd partïon â diddordeb yn dymuno siarad â'r heddlu lleol ymlaen llaw, neu ddogfennu problemau eu hunain drwy, er enghraifft, gadw dyddiadur neu dystiolaeth ffotograffig o unrhyw ddigwyddiadau. Bydd angen i awdurdodau trwyddedu fod yn fodlon bod cysylltiad tystiolaethol ac achosol rhwng y sylwadau a wnaed, a'r effaith ar yr amcanion trwyddedu.

Yn ogystal, gall yr awdurdod trwyddedu ond ystyried sylwadau nad ydynt yn "flinderus" neu'n "wamal".

## Pwy sy'n gallu rhoi sylwadau?

| Awdurdodau Cyfrifol: | Unrhyw berson arall |
|---|---|
| **Heddlu**<br>**Tân ac Achub**<br>**Awdurdod Cynllunio Lleol**<br>**Asiantaeth** orfodi iechyd a diogelwch<br>**Asiantaeth orfodi pwysau a mesurau**<br>**Asiantaeth Amddiffyn Plant**<br>**Bwrdd Iechyd Lleol**<br>**Yr Awdurdod Trwyddedu** | **Unigolion**<br>**Cynrychiolwyr unigolion**<br>**Busnesau**<br>**Cynrychiolwyr busnesau** |

## Sut y gellir rhoi sylwadau?

Rhaid i'ch sylw gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i dderbyn yn ystod y cyfnod rhoi sylwadau. Rhaid iddo ymwneud ag un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu. Mae'r Ddeddf yn dweud na ddylai sylwadau fod yn "wamal, yn flinderus nac yn ailadroddus".

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell eich bod yn cyflwyno eich sylwadau gan ddefnyddio'r ffurflen ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir argraffu, cwblhau a chyflwyno hyn drwy'r post i'r Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Dinas Caerdydd, yr Adran Drwyddedu, Ystafell 206, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND. Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau at **trwyddedu@caerdydd.gov.uk** neu anfon llythyr cyffredin i'r cyfeiriad uchod.

## Sylwadau dienw

Ni allwch wneud sylwadau yn ddienw. Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod yr holl sylwadau ar gael i'r ymgeisydd eu gweld. Fodd bynnag, gallwch ofyn i'ch cynghorydd lleol wneud sylwadau ar eich rhan. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dal yn gofyn i'r cynghorydd am eich manylion (er mwyn bod yn fodlon bod gennych hawl i wneud sylwadau ar y cais) ond ni fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeisydd.

## Deisebau

Bydd unrhyw ddeisebau a dderbynnir yn cael eu trin fel un sylw gan y person sy'n ei anfon, gyda chefnogaeth y llofnodwyr eraill. Ni fydd deisebau'n cael eu trin fel sylwadau unigol gan bawb sydd wedi llofnodi.

## Pethau y gallech fod am eu hystyried wrth gyflwyno sylwadau

- ***Os na wneir unrhyw sylwadau perthnasol, rhaid rhoi'r drwydded neu'r amrywiad (yn amodol ar yr amodau gorfodol)***.
- Gall fod yn ddefnyddiol cael cefnogaeth unigolion, busnesau, neu "awdurdodau cyfrifol" eraill, fel yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd.
- Edrychwch ar gofnodion swyddogol eich awdurdod trwyddedu am y safle, a gedwir yn eu "cofrestr drwyddedu". Bydd hyn yn dangos i chi os yw pobl eraill wedi gwneud sylwadau, neu wedi gofyn am adolygiad o'r safle yn y gorffennol.
- Os ydych chi'n ystyried codi deiseb, mae'n bwysig cofnodi manylion llawn gan gynnwys pob enw a chyfeiriad a nodi'n glir pa sylw(adau) maen nhw i gyd yn eu gwneud. Byddai hefyd o gymorth pe bai llefarydd yn gallu gwirfoddoli i dderbyn manylion am y gwrandawiadau ac ati gan yr awdurdod trwyddedu ac efallai y byddant yn barod i siarad ar ran y deisebwyr yn y gwrandawiad.
- Os ydych am ofyn i berson arall, fel AS neu Gynghorydd lleol i'ch cynrychioli, mae'n syniad da gwneud cais o'r fath yn ysgrifenedig fel y gall yr unigolyn ddangos ei fod wedi gofyn iddyn nhw. Mater i'r AS neu'r Cynghorydd fydd penderfynu a ddylai gytuno i'ch cais. Does dim rheidrwydd arnynt i wneud hynny, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o gynrychiolwyr etholedig yn hapus i helpu preswylwyr gyda'r math hwn o broblem, ac nid oes gofyniad iddynt fyw yng nghyffiniau'r safle dan sylw er mwyn iddynt allu cyflwyno sylwadau ar ran trigolion sy'n gwneud hynny.. Ni fydd cynghorwyr sy'n rhan o'r pwyllgor trwyddedu sy'n clywed y cais yn gallu trafod y cais gyda chi y tu allan i'r gwrandawiad ffurfiol, felly awgrymir nad ydych yn mynd atynt i geisio gwneud hynny.

- Ystyriwch sut yr hoffech i'r sefyllfa gael ei datrys.

**Beth sy'n digwydd ar ôl i sylw gael ei wneud?**
Os bydd un neu fwy o sylwadau'n cael eu gwneud ac na cheir cytundeb bydd gwrandawiad cyhoeddus i benderfynu ar y canlyniad. Mewn gwrandawiad, bydd tri aelod o Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor yn ystyried manylion y cais a'r sylwadau.

Bydd yr ymgeisydd a'r bobl sydd wedi cyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod ymgynghori yn cael eu gwahodd i'r gwrandawiad a byddant yn gallu siarad a gofyn cwestiynau cyn i'r cynghorwyr wneud penderfyniad. Gall y cynghorwyr benderfynu rhoi trwydded fel y gwnaed cais amdani, rhoi trwydded gydag oriau diwygiedig neu amodau ychwanegol, neu wrthod y cais yn gyfan gwbl.

**Beth gallaf ei wneud os oes problemau ar ôl i drwydded gael ei rhoi?**
Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb ofyn am adolygiad o drwydded eiddo neu dystysgrif safle clwb sy'n bodoli eisoes. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi cyhoeddusrwydd i'r ceisiadau hyn, ac mae cyfnod o 28 diwrnod i roi sylwadau. Yna bydd gwrandawiad cyhoeddus fel y nodir uchod. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i gynghorwyr, o adael y drwydded fel y mae i'w dirymu'n llwyr.

**Rhagor o wybodaeth**
I gael rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y Ddeddf Drwyddedu, cysylltwch â:

Yr Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Caerdydd
Yr Adran Drwyddedu, Ystafell 206, Neuadd y Ddinas,
Caerdydd CF10 3ND
Gwefan:- **www.caerdydd.gov.uk**
Ffôn: 02920871651. E-bost: trwyddedu@caerdydd.gov.uk

**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

CARDIFF
CAERDYDD

## Ffurflen Cyflwyno Sylwadau

Deddf Trwyddedu 2003 - Sylwadau yn ymwneud â Cheisiadau am Drwydded Safle

| **Manylion y person neu gorff sy'n gwneud y sylw** | | |
|---|---|---|
| Eich Enw: | | |
| Eich Cyfeiriad: | | |
| Rhif ffôn: | E-bost: | |

| **Manylion y safle y mae'r sylw'n ymwneud ag e** | |
|---|---|
| Enw'r Safle: | |
| Cyfeiriad y safle: | |
| Rhif y cais (os yw'n hysbys) | |

| **Ticiwch un neu fwy o'r amcanion trwyddedu y mae eich sylw yn ymwneud â nhw:** | |
|---|---|
| Atal trosedd ac anrhefn | ☐ Ie |
| Diogelwch y Cyhoedd | ☐ Ie |
| Atal Niwsans Cyhoeddus | ☐ Ie |
| Amddiffyn plant rhag niwed | ☐ Ie |

| **Crynhowch eich pryderon am y cais hwn:** |
|---|
| |

| **Rhowch fwy o fanylion am pam rydych yn credu y bydd y cais hwn yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu** |
|---|
| |

**Dychwelwch eich ffurflen wedi ei chwblhau atom i:**

Drwy'r Post:

Adran Drwyddedu
Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 203
Neuadd y Ddinas
Caerdydd CF10 3ND

Drwy e-bost:

trwyddedu@caerdydd.gov.uk